# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 11EG MEHEFIN, 2018**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 4 Mehefin 2018)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Steve Collings | Annwen Hughes |
| Dafydd Owen | Edgar Wyn Owen |
| Rheinallt Puw | Peter Read |
| Elfed Williams | Annwen Daniels |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Eryl Jones-Williams |
| Jason Wayne Parry | Angela Russell |

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Gareth Williams

## Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd Sion W Jones

## Aelod Unigol (1)

Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2018/19

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2018/19

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 5.3.18 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 7 - 8

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 13.03.2018

## 8. CAIS I NEWID DIWRNOD MARCHNAD PORTHMADOG 9 - 11

I ystyried adroddiad Pennaeth yr Amgylchedd

## 9. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2018/19 12 - 14

I ystyried adroddiad Pennaeth yr Amgylchedd

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 05.03.18**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Annwen Daniels, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Jason Wayne Parry, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Roberts, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Sïon Huws (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 11eg o Ragfyr 2018 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 12.01.2018

**6. MANYLDEB MESURYDDION CERBYDAU HACNI**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth yr Adran Amgylchedd yn gosod cefndir a diweddariad ar ddatblygiadau ym maes mesuryddion cerbydau hacni (clociau tacsi). Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo cynnig i newid yr amodau fel rhan o adolygiad ehangach i bolisïau ac amodau trwyddedu tacsi sydd wrthi'n cael eu hadolygu. Cyflwynwyd rhestr o'r amodau presennol ynghyd a'r amodau arfaethedig.

Amlygwyd mai un o'r meysydd trafod oedd cynnydd yn y defnydd o Systemau Lleoli Byd-eang (GPS) i fesur tal mewn cerbydau trwyddedig. Er bod y defnydd yma yn cael ei groesawu fel system i weithredwyr reoli ac anfon cerbydau at gwsmeriaid a chyfrif pris taith yn effeithiol, adroddwyd nad oes unrhyw system GPS ar hyn o bryd yn cydymffurfio gyda gofynion Rheoliadau Offer Mesur 2006. O ganlyniad, ni ellir eu defnyddio fel

mesurydd cymeradwy. Eglurwyd mai'r bwriad oedd ychwanegu amod yn egluro statws cyfreithiol presennol systemau GPS i reoli ac anfon tacsi

Adroddwyd nad oedd trefniant yn ei le i gerbydau hacni yng Ngwynedd gael eu cloc tacsi wedi ei brofi yn gyfnodol. Mewn ymateb i hyn cynigiwyd amodau i berchnogion cerbydau tacsi sicrhau bod y cloc yn gweithio'n briodol; darparu tystysgrif yn cadarnhau bod y cloc o fanyldeb *(specification)* a gymeradwywyd; wedi ei osod yn unol â Rheoliadau Offer Mesur (2006); wedi ei galibradu i sicrhau mai dim ond tariff cyfredol Cyngor Gwynedd sydd yn cael ei ddefnyddio. Bydd gofyn i'r perchennog ddangos y dystysgrif yn flynyddol i'r Awdurdod Trwyddedu i brofi bod y mesurydd yn gywir. I hybu'r newidiadau, y bwriad yw i'r Uned Trwyddedu sefydlu rhestr o brofwyr clociau tacsi cymeradwy i osod a chynnal y profion blynyddol.

Nodwyd bod angen ymgynghori gyda'r diwydiant ynglŷn â'r newidiadau i amodau trwydded cerbyd hacni. Y bwriad yw bod hyn yn cael ei wneud fel rhan o waith ymgynghori ehangach ar adolygiad polisïau trwyddedu tacsi.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod yr argymhelliad yn un i'w groesawu - yn gosod cysondeb
- Amserol fydd derbyn cyngor cyfreithiol ar faterion defnydd GPS
- Bod y polisi yn cael ei adolygu mewn ymateb i newidiadau mewn technoleg
- Bod mantais reolaethol i ddefnydd GPS ac felly angen sicrhau bod y ddwy drefn yn cydweithio

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phwy fydd yn gwirio'r addasiadau i glociau tacsi, nodwyd mai cyfrifoldeb y cwmnïau fydd cydymffurfio gyda'r amodau arfaethedig.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sicrhau bod gyrrwr tacsi yn 'yrrwr diogel' (yn dilyn digwyddiad diweddar i ddiddymu trwydded gyrrwr oherwydd defnydd cyffuriau), nodwyd mai drwy'r diwydiant, gan amlaf y bydd yr Uned Trwyddedu yn derbyn gwybodaeth. Petai pryder gan yr Uned Drwyddedu neu wybodaeth yn dod i law gan y cyhoedd am yrrwr yn ymddwyn yn amhriodol bydd yn Uned yn gwneud cais i'r Heddlu am wybodaeth. Yn sgil newidiadau i'r Ddeddf Rheoli Data, amlygwyd nad oedd gorfodaeth bellach ar yr Heddlu i rannu gwybodaeth yn awtomatig gyda'r Uned am unigolion oedd wedi troseddu yn ddiweddar.

Yn dilyn yr ymateb, awgrymwyd llythyru Comisiynydd yr Heddlu yn amlygu pryderon y Pwyllgor ar faterion rhannu gwybodaeth bersonol.

Yn dilyn sylw gan y Swyddog mai Cyngor Gwynedd sydd yn gosod tariff prisiau drwy ddilyn trefn gyfreithiol, derbyniwyd cais gan yr Aelodau am restr o'r cyfraddau prisiau.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 7. ADOLYGU POLISÏAU TACSI CYNGOR GWYNEDD

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu ar y broses o adolygu holl bolisïau tacsis Cyngor Gwynedd gan atgoffa'r Aelodau mai'r bwriad oedd cyflwyno un polisi unedol fydd yn cynnwys penderfyniad y Pwyllgor i weithredu adrannau 165, 166 a 167 o'r Ddeddf Cydraddoldeb. Ategwyd bod yr Uned Trwyddedu wedi ymgynghori yn anffurfiol gyda'r diwydiant ac wedi derbyn rhai sylwadau. Mynegwyd mai un sylw cyffredinol oedd eu bod yn gwrthwynebu newidiadau i bolisïau yn ymwneud a cherbydau hygyrch i gadeiriau olwyn ac yn dadleu bod y sefyllfa yn annheg.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod addasu polisi cerbydau sydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn yn ymateb i ofynion y Ddeddf Llesiant
- Rhaid i gwmnïau tacsi gyfarch yr angen
- Awgrym i osod gweledigaeth bod pob tacsi yn gerbyd aml bwrpas i'r dyfodol
- Awgrym bod pob Awdurdod Lleol ar draws y Gogledd yn mynegi barn fel un llais i geisio gorfodi pob tacsi i fod yn aml bwrpas i'r dyfodol

Cynghorodd y Cyfreithiwr, i'r Uned Drwyddedu gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor er mwyn cael eglurdeb parthed yr opsiynau ac arweiniad ar y ffordd ymlaen er mwyn cael penderfyniad.

**DERBYNIWYD y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11:00am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 13.03.2018

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Steve Collings a Jason W Parry

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
   - Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
   - Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

   Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

   Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir ei droseddau. Nododd mai gyrrwr loriau ydoedd wrth ei waith a'i fod wedi gwneud un camgymeriad difrifol o benderfynu gyrru o dan ddylanwad alcohol ar ôl noson allan gyda'i ffrindiau. Roedd yn cyfaddef yn agored bod y penderfyniad wedi bod yn wirion a bod y cwrs adfer wedi bod yn werthfawr iawn.

Mewn ymateb i gwestiwn, amlygodd y byddai, petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu, yn hunangyflogedig.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Bangor (Tachwedd 1995) ar un cyhuddiad o geisio cael eiddo drwy dwyll, yn groes i Ddeddf Lladrad 1968 adran 15. Cafodd ddirwy o £60.00. Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Bangor (Chwefror 1989) am ddau drosedd o ddifrod troseddol. Cafodd orchymyn i dalu iawndal o £ 220.00. Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Gwynedd (Rhagfyr 2014) ar un cyhuddiad o fethu â darparu sbesimen i'w ddadansoddi, yn groes i adran 7 (6) Deddf Traffig Ffyrdd 1988. Cafodd ei wahardd rhag gyrru am 12 mis, gyda gostyngiad o 3 mis yn dilyn cwrs adfer.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded.

Amlygwyd bod paragraff 4.5 o Bolisi'r Cyngor yn nodi bod Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu i'r Is-bwyllgor ystyried yr holl gollfarnau a gofnodwyd boed y rheiny wedi darfod o dan Ddeddf 1974 ai peidio.

Ystyriwyd paragraff 6.5 lle nodi'r bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd un gollfarn o natur dreisgar yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf. Nodwyd bod troseddau o'r fath yn cynnwys difrod troseddol. Ystyriwyd paragraff 8.2 lle nodi'r bydd cais yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd gollfarn o'r 3 blynedd diwethaf am drosedd o anonestrwydd (sydd yn cynnwys ceisio eiddo drwy dwyll). Ystyriwyd paragraff 12.9 lle nodi'r bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes collfarn ddiweddar yn erbyn yr ymgeisydd a arweiniodd at waharddiad o 12 mis neu fwy, oni bai bod cyfnod o 18 mis o leiaf wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

Derbyniwyd bod collfarn 1985 yn cynnwys trosedd o anonestrwydd, fodd bynnag ers i'r gollfarn ddigwydd 32 mlynedd yn ôl (dros 3 blynedd yn ôl), roedd yr Is-bwyllgor o'r farn nad oedd y drosedd yn sail i wrthod. Derbyniwyd bod collfarn 1989 yn cynnwys troseddau trais ddigwyddodd 29 mlynedd yn ôl. Nid oedd hyn yn sail i wrthod y cais. Yn dilyn collfarn 2014, cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel rhag gyrru. Cyfrifodd yr Is-bwyllgor bod y gwaharddiad wedi dod i ben 31 Awst 2015 (9 mis ar ôl 1 Rhagfyr 2014) a olygai bod dros 12 mis wedi mynd heibio ers ei ddiarddel.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd gyda manylion am ei hawl i gyflwyno apêl.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:20am a daeth i ben am 10:40am

**EITEM**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **11eg MEHEFIN 2018** |
| **TEITL:** | **CAIS I NEWID DIWRNOD MARCHNAD PORTHMADOG** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN AMGYLCHEDD** |

**CEFNDIR**

Mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn gyfrifol am redeg marchnadoedd y Cyngor, fel y ganlyn:-

| | |
|---|---|
| PWLLHELI | pob dydd Mercher trwy gydol y flwyddyn a phob dydd Sul o fis Mai i fis Medi |
| **PORTHMADOG** | **pob dydd Gwener o Basg hyd at ddiwedd Rhagfyr** |
| CAERNARFON | pob dydd Sadwrn drwy'r flwyddyn a phob dydd Llun o fis Mehefin i fis Medi |

Yn unol ag amodau a rheolau cyfredol marchnadoedd agored Gwynedd, mae Marchnad Porthmadog yn gweithredu ar Faes Parcio Heol y Parc ar ddydd Gwener o 8.30yb-5yh. Mae'r farchnad yn gweithredu o'r dydd Gwener gyntaf mis Ebrill neu o'r dydd Gwener cyn Gwener y Groglith, p'run bynnag sydd yn gynharach, ac yn rhedeg hyd at ddydd Gwener olaf mis Rhagfyr bob blwyddyn.

**CAIS I NEWID DIWRNOD Y FARCHNAD**

Derbyniwyd cais diweddar gan un o gynrychiolwyr marchnad Porthmadog i newid diwrnod y farchnad o ddydd Gwener i ddydd Iau.

Yn dilyn ymgynghoriad, gweler y prif resymau a gyflwynwyd o blaid newid y diwrnod farchnad i ddydd Iau yn ogystal â'r rhesymau a gyflwynwyd am gadw'r farchnad ar ddydd Gwener:-

| **Prif resymau o blaid symud i ddydd Iau** | **Prif resymau am gadw'r farchnad ar ddydd Gwener** |
|---|---|
| 7 masnachwr wedi cadarnhau yn ysgrifenedig eu bod yn ffafrio symud i ddydd Iau gyda 1 masnachwr yn hapus gydag unrhyw un o'r diwrnodau.. | 9 masnachwr wedi cadarnhau yn ysgrifenedig eu bod yn ffafrio cadw'r farchnad ar ddydd Gwener (ac fel yr eglurwyd yn flaenorol mae 1 yn hapus un ffordd neu llall). 2 masnachwr wedi datgan na fyddent yn gallu mynychu ar ddydd Iau o gwbl. |
| Nifer o fasnachwyr rheolaidd a fynychodd y farchnad llynedd yn isel (3 | Mwy o fasnachwyr presennol yn cefnogi dydd Gwener. |

| | |
|---|---|
| neu 4). Mae'r gwasanaeth Marchnadoedd yn parhau i geisio rhoi cyfleoedd i stondinau weithio ar y marchnadoedd ond yn anffodus, oherwydd newidiadau economaidd a chymdeithasol, mae'r nifer o stondinau yn prysur leihau'n flynyddol. | Ers i'r cais am newid diwrnod gael ei chyflwyno mae cynnydd yn y nifer o fasnachwyr sydd wedi bod yn mynychu'r farchnad dydd Gwener. Er mae hefyd yn bosib bod hyn oherwydd amser y flwyddyn/tywydd ayb |
| Posibilrwydd o ddenu mwy o fasnachwyr newydd ar ddydd Iau. Y sawl a wnaeth y cais wedi crybwyll ei fod yn gwybod am fasnachwyr newydd a all fod â diddordeb ac yn edrych ar lenwi'r maes parcio.. | Y cyhoedd bellach wedi arfer bod y farchnad ar ddydd Gwener a phosibilrwydd bod y masnachwyr presennol yn colli eu cwsmeriaid rheolaidd a'r busnes sydd wedi cael ei adeiladu dros flynyddoedd o fynychu'r farchnad ar ddydd Gwener. |
| Pan sefydlwyd y farchnad ym Mhorthmadog nid oedd farchnad yn bodoli ym Mangor. Ers hynny, mae marchnad wedi ei sefydlu ym Mangor ac yn gweithredu ar yr un diwrnod ac un Porthmadog, sef ar ddydd Gwener. | Sôn bod marchnad Fflint, sydd ar ddydd Gwener, yn darfod ryw ben yn ystod yr haf. Os felly, posibilrwydd o ddenu masnachwyr newydd ar ddydd Gwener. |
| Er bod yr amserlen yn amrywio yn ddibynnol ar amser y flwyddyn, mae'r Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymreig yn gyffredinol yn rhedeg mwy o drenau ar ddydd Iau na dydd Gwener gan fod dydd Gwener yn ddiwrnod newid drosodd i grwpiau a lletai ac felly llai o bobl yn teithio ar ddydd Gwener i gymharu â chanol wythnos. | Mi fydd newid y farchnad i ddydd Iau yn golygu cystadlu a marchnad Bermo sydd hefyd ar ddydd Iau. |
| | Rhai masnachwyr sy'n teithio i'r farchnad ddim yn cyrraedd yr ardal tan y nos Iau gan eu bod yn aros ac yn gweithio mewn marchnadoedd eraill yn yr ardal dros y penwythnos. |
| | Llawer o ymwelwyr sy'n ymweld â'r dref yn dod am y penwythnos yn unig ac felly ddim yn cyrraedd tan y nos Iau neu fore Gwener.. |
| | Wrth gyfyngu'r farchnad i'r nifer o stondinau cyfredol (10-12 stondin) mae canran o'r maes parcio yn parhau i fod ar gael i siopwyr ymweld â'r farchnad a'r dref. |

**Ymatebion pellach a dderbyniwyd:-**

- E-byst gan rai masnachwyr yn cefnogi'r newid diwrnod.
- E-byst gan fasnachwyr eraill (yn cynnwys lluniau) yn ffafrio cadw at y dydd Gwener ac yn datgan eu pryderon am y cais i newid diwrnod.

Mae'r adran hefyd wedi ymgynghori gyda'r Adran Briffyrdd, sy'n gyfrifol am y maes parcio, a Chyngor Tref Porthmadog ac nid oes gwrthwynebiad ganddynt un ffordd neu llall cyn belled a bod unrhyw arwyddion yn ddwy ieithog.

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr uchod a dod i benderfyniad os am ganiatáu'r cais i newid diwrnod marchnad Porthmadog o ddydd Gwener i ddydd Iau.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

.

| PWYLLGOR | PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL |
|---|---|
| DYDDIAD: | 11 MEHEFIN 2018 |
| TEITL: | FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2018/19 |
| PWRPAS: | CYMERADWYO FFIOEDD ARFAETHEDIG AR GYFER EU GWEITHREDU O 1AF O HYDREF 2018 |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu ei ffioedd mewn perthynas â Thrwyddedu tacsis (h.y. trwyddedau cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat, gweithredwyr hurio preifat a gyrwyr) yn rheolaidd. Penderfynodd y Pwyllgor hwn ar 24 Mehefin 2013 y byddai ffioedd tacsi yn cael eu hadolygu yn flynyddol.

1.2 Mae Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn darparu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i dalu costau rhesymol -

- I ganiatáu trwydded gyrrwr ar gyfer cerbyd hacni neu hurio preifat – costau ynghlwm â phrosesu, gweinyddu a rhoddi trwyddedau.
- I ganiatáu trwydded cerbyd a gweithredwr - costau archwilio, arosfa cerbyd hacni, rhybuddion cyhoeddus, rheoli a goruchwylio cerbydau ac unrhyw gostau eraill ynghlwm â phrosesu cais.

1.3 Rhaid i'r ffioedd a godir fod yn rhesymol a phenderfyniad y Cyngor yw p'un a yw'r ffioedd yn cael eu gosod ar lefel i alluogi adennill costau'n llawn neu'n rhannol, ai peidio **Penderfynodd y Pwyllgor hwn ar 24 Mehefin 2013 fod yn rhaid i ffioedd Trwyddedu tacsi gael eu hadolygu i adennill costau'n llawn.**

1.4 Cynyddwyd ffioedd tacsi gan 25% yn 2013 a 19.78% , a 10.78% yn 2015 er mwyn adennill y costau'n llawn. Ni chynyddwyd y ffioedd o gwbl yn 2016/17 nac ychwaith yn 2017/18

## 2 EFFAITH NEWIDIADAU DEDDFWRIAETHOL DIWEDDAR AR BROSESAU TRWYDDEDU

2.1 Nid yw'r ffioedd wedi eu newid ers cyflwynodd y Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yr hawl i geisio am drwyddedau gyrwyr tacsi sydd yn parhau yn weithredol am 3 blynedd, a thrwyddedau gweithredwyr sydd yn gallu parhau hyd at 3 neu 5 mlynedd. Mae y rhan fwyaf o yrwyr tacsi wedi penderfynu ymgeisio am drwyddedau gyrru tair blynedd pan fu iddynt ddod i adnewyddu. Mae'r Uned Drwyddedu wrth gwrs yn parhau i ddefnyddio'r disgresiwn a ganiateir drwy'r Ddeddf i ganiatáu trwyddedau blwyddyn i yrwyr mewn amgylchiadau penodol.

2.2 Fel yr ydym yn nesáu at ddiwedd y cyfnod trwyddedau 3 blynedd gyntaf ers daeth y Ddeddf Dadreoleiddio i rym; mae'r asesiad ffioedd wedi amlygu nad yw cost trwydded tair blynedd yn ddigonol i adennill y gwir gostau sydd ynghlwm a phrosesu a gweinyddu'r trwyddedau hyn.

2.3 Dengys profiad o weinyddu'r trwyddedau 3 blynedd dros y ddyflwydd a hanner diwethaf fod cryn amser yn cael ei dreulio yn sicrhau fod dogfennau angenrheidiol fel tystysgrif feddygol a DBS yn cael eu derbyn ai gwirio er mwyn sicrwydd eu bod yn

parhau yn gyfredol yn ystod cyfnod  y drwydded. Mae hyn wedi ei gymryd i ystyriaeth yn yr adolygiad hwn.

2.4 Mae'r  Ddeddf Mewnfudo 2016 hefyd wedi cyflwyno camau gwirio ychwanegol i'r broses o geisio am drwydded gyrru tacsi. Mae bellach yn hanfodol fod pob ymgeisydd yn dod i swyddfa'r Cyngor i wneud cais mewn person; a dod a dogfennau gwreiddiol i'w gywiro gan swyddogion fel y gellir sefydlu hunaniaeth a hawl i weithio'r unigolyn yn y DU. Mae'n ofynnol i swyddogion hefyd wirio dogfennau mewn manylder er mwyn sicrhau nad oes dogfennau ffug yn cael eu cyflwyno. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i bob un ymgeisydd sydd yn gofyn am drwydded am y tro cyntaf; a phob cais adnewyddu  am y tro cyntaf ers i'r gorchmynion perthnasol o'r Ddeddf Mewnfudo 2016 ddod i rym.

**3. ASESIAD ARIANNOL & CYNNIG AR GYFER 2018–19**

3.1 Mae'r Adran Trysorydd wedi asesu'r ffioedd arfaethedig ac wedi casglu  fod y cynnydd arfaethedig yn rhesymol i adenill costau sydd ynghlwm a phrosesu cais , yn unol â'r hyn sydd yn cael ei ganiatáu gan y Ddeddf. Mae'r canran cynnydd yn adlewyrchu cyfartaledd canran cynnydd ar draws y gwahanol drwyddedau. Mae rhai ffioedd wedi gweld cynnydd llai neu mwy na'r canran cyfartaledd yn ddibynnol ar yr ymdrech ychwanegol sydd ynghlwm a'r prosesau.  Mae'r tabl isod yn amlinellu'r costau cyfredol a'r costau arfaethedig. Mae'r ffioedd arfaethedig hefyd yn cynnwys costau o yrru llythyrau atgoffa adenwyddu a gwaith gweinyddol  sydd ynghlwm wrth  gynghori a chyfathrebu cyn ac yn ystod  proses cyflwyno cais. Nid yw 'r costau hynny wedi cael eu cynnwys yn flaenorol.

3.2 TABL O FFIOEDD CYFREDOL AC ARFAETHEDIG

| **ffioedd arfaethedig tacsis 2018** | **ffi gyfredol £** | **Ffi arfaethedig  £ 2018/19** |
|---|---|---|
| | | |
| trwydded gyrrwr blwyddyn | 136 | 233 |
| trwydded gyrrwr 3 | 174 | 270 |
| | | |
| trwydded cerbyd  HACNI newydd | 204* | 232* |
| trwydded cerbyd HACNI adnewyddu | 169.2* | 197* |
| Ffi trosglwyddo trwydded CH i berchennog newydd | 74.60 | 75 |
| Trwydded HP newydd | 240.5* | 269* |
| Trwydded HP adnewyddu | 169.2* | 197* |
| Ffi trosglwyddo trwydded HP i berchennog newydd | 74.60 | 75 |
| Trwydded cerbyd HP amodol | 89.6 | 171 |
| | | |
| Trwydded gweithredwr 1 blwyddyn | 180.8 | 236 |
| trwydded gweithredwr 3 mlynedd | 238.7 | 275 |
| trwydded gweithredwr 5 mlynedd | 297.8 | 329 |

*Cyfanswm yn cynnwys platiau tu mewn a thu allan (hacni a hurio preifat),  a sticer (hurio preifat)

3.3 Er mwyn adennill y costau'n llawn rhaid felly cynyddu'r ffioedd o gyfartaledd o 28%.

4. **<u>YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT</u>**

4.1 Unwaith y bydd y Pwyllgor hwn yn gwneud penderfyniad ar y ffioedd arfaethedig bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cychwyn yn unol â'r gofynion statudol.

4.2 Mae Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn datgan bod yn ofynnol i rybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd ymddangos yn y wasg leol. Mae amserlen benodol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus; ac ni fydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn dod i rym hyd nes y bydd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol wedi ei ystyried yn ddiweddarach gan y Pwyllgor hwn. Fe fydd ymgynghoriad uniongyrchol drwy lythyr yn digwydd cyn y dyddiad y bydd y rhybudd yn ymddangos yn y wasg leol ; er mwyn caniatáu digon o gyfle i'r diwydiant amlygu unrhyw bryderon.

4.3 Fe fydd y rhybudd yn y wasg yn cynnwys y dyddiad pan fydd y ffioedd yn dod yn weithredol, 28 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd ar yr amod na cheir gwrthwynebiadau i'r ffioedd. Bydd rhaid i unrhyw wrthwynebiadau i'r ffioedd gael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn yn ystod ei gyfarfod nesaf mis Medi 2018, a rhaid gwneud penderfyniad ar lefel y ffioedd yn unol â hynny. Ni fydd ffioedd newydd yn dod yn weithredol hyd oni geir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor hwn

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i godi'r ffiioedd i'r lefel a argymhellir ; yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda'r diwydiant tacsi ac ymgynghoriad drwy rybudd cyhoeddus.